

---

## PWYLLGOR PENODI PRIF SWYDDOGION, 02-7-21

---

### Presenoldeb:

**Cynghorwyr:**, Stephen Churchman, Selwyn Griffiths, Alwyn Gruffydd, Anwen Hughes, Eryl Jones-Williams, Cai Larsen, Dafydd Meurig, Dewi W Roberts, Mair Rowlands, Angela Russell a Dyfrig Siencyn

### Swyddogion:

Dafydd Gibbard (Prif Weithredwr), Geraint Owen (Pennaeth Cefnogaeth Corfforaethol), Eurig Williams (Rheolwr Gwasanaethau Ymgynghorol Adnoddau Dynol) a Lowri Haf Evans (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth)

### Eraill a wahoddwyd:

Cynghorydd Elwyn Jones (Is-gadeirydd y Cyngor)

#### 1. ETHOL CADEIRYDD

**Etholwyd y Cynghorydd Mair Rowlands yn Gadeirydd y Pwyllgor hwn ar gyfer 2021/22**

#### 2. ETHOL IS GADEIRYDD

**Etholwyd y Cynghorydd Dyfrig Siencyn yn Gadeirydd y Pwyllgor hwn ar gyfer 2021/22**

#### 3. YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorwyr Peredur Jenkins, Eric M Jones, Peter Read, Gethin Glyn Williams a Simon Glyn (Cadeirydd y Cyngor)

#### 4. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Y Cynghorydd Alwyn Gruffydd yn eitem 8 ar y rhaglen oherwydd bod ganddo gyswllt busnes agos a chysylltiad personol gyda theulu un o'r ymgeiswyr.

Roedd yr Aelod o'r farn ei fod yn fuddiant a oedd yn rhagfarnu a gadawodd y cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar y cais.

#### 5. MATERION BRYD

Dim i'w nodi

#### 6. COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF

Derbyniodd y Cadeirydd gofnodion cyfarfod o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 16eg o Ebrill 21 fel rhai cywir

#### 7. CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD

**PENDERFYNWYD** cau'r wasg a'r cyhoedd allan o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem ganlynol gan ei fod yn debygol y datgelir gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir ym mharagraff 12, Rhan 4, Atodiad 12A, Deddf Llywodraeth Leol 1972. Mae'r paragraff yma yn berthnasol oherwydd bod yr adroddiad yn cynnwys gwybodaeth am unigolion penodol sydd â hawl i breifatrwydd. Nid oes unrhyw fudd cyhoeddus sydd yn galw am ddatgelu gwybodaeth bersonol am yr unigolion yma. O ganlyniad mae'r budd cyhoeddus yn disgyn o blaid cadw'r wybodaeth yn eithriedig.

## **8. LLUNIO RHESTR FER AR GYFER PENNAETH TAI AC EIDDO**

Adroddodd y Cadeirydd bod 14 cais wedi ei derbyn am y swydd. Roedd hyn yn galonogol iawn

Gwahoddwyd y Prif Weithredwr i gyflwyno crynodeb ar y ceisiadau. Trafodwyd y ceisiadau yn unol â gofynion y swydd gan ganolbwyntio ar y prif gymwysedau.

### **PENDERFYNWYD RHOI PEDWAR YMGEISYDD AR Y RHESTR FER**

Wrth ymhelaethu ar y camau nesaf, amlygodd Pennaeth Cefnogaeth Gorfforaethol y byddai canolfan asesu yn cael ei chynnal ar y 9fed o Orffennaf 2021. Bydd adroddiad ffurfiol o ymatebion yr ymgeiswyr yn cael ei ddarparu gan y ganolfan asesu i'w gyflwyno i'r Pwyllgor Penodi Prif Swyddogion.

Trafodwyd pum cwestiwn a thestun cyflwyniad priodol ar gyfer y cyfweiliad.

Cyfweiliadau i'w cynnal 16 Gorffennaf 2021

Cynigiwyd gwahodd Aelod Cabinet Tai ac Eiddo i'r cyfweiliadau fel sylwedydd

**PENDERFYNWYD** gwahodd y Cynghorydd Craig ab Iago (Aelod Cabinet Tai ac Eiddo) i'r cyfweiliadau fel sylwedydd. Nodwyd na fydd ganddo hawl i bleidleisio ar y penderfyniad, ond bydd cyfle iddo siarad ar gais y Pwyllgor.

Dechreuodd y cyfarfod am 10:00am a daeth i ben am 11:05am